WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1387A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Statws yr archwiliad 4

Adroddiad archwilio arfaethedig 4

Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad 5

Argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 7

Annibyniaeth a gwrthrychedd 8

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol 9

Atodiad 2 – adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 12

Atodiad 3 – crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt 16

Atodiad 4 – argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ar gyfer 2018-19 18

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

3 Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yw £878,000 i'r Awdurdod a £167,000 i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd effeithio ar b'un a fernir bod eitem yn berthnasol.

4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

5 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu, er mwyn eu hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod, ar gyfer 2018-19, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ar 31 Mai 2019, a oedd yn unol â therfyn amser statudol cynharach 2018-19, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth.

7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn fod yn rhaid i chi eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn â Mr Ken Finch, y Trysorydd.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Fel rhan o gamau olaf yr archwiliad, byddwch yn darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

9 Amlinellir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion pwysig sy’n deillio o’r archwiliad

## Camddatganiadau heb eu cywiro

10 Rydym yn trafod isod un camddatganiad a adnabuwyd yn y datganiadau ariannol sydd wedi cael eu trafod gyda rheolwyr ond sydd yn parhau i fod heb eu cywiro, rydym yn gofyn iddynt gael eu cywiro. Os yr ydych yn penderfynu peidio cywiro’r camddatganiad, rydym yn gofyn i chi ddarparu rhesymau am beidio cywiro.

### Nid yw costau treth a ddidynnwyd oddi wrth ymddeoledigion wedi eu cronni yng nghyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

11 Os bydd unigolyn yn dewis cymryd cyfran uwch o’i fuddion pensiwn fel cyfandaliad, bydd y symiau dan sylw yn cael eu trethu. Mae’r Awdurdod yn casglu’r dreth hon oddi wrth yr unigolyn pan wneir y cyfandaliad ac yn ei thalu i CThEM ar ôl hynny. Er bod yr Awdurdod wedi casglu’r dreth, mewn amgylchiadau lle na wnaed y taliad i CThEM erbyn 31 Mawrth 2019, nid yw’r rhwymedigaeth wedi ei chronni na’i chydnabod yn y datganiadau ariannol. O ganlyniad, mae cymudiad buddion pensiwn a chyfandaliad yng nghronfa bensiwn y diffoddwr tân wedi eu tanddatgan gan £19,960, yn ogystal â balans y credydwyr yn y Fantolen.

## Camddatganiadau a gywirwyd

12 Mae camddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i’ch cyfrifoldebau mewn perthynas â’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe’u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Mae’n braf nodi’r gwelliant sylweddol yn ansawdd y datganiadau ariannol drafft a’r papurau gwaith ategol er bod gennym rai pryderon ynghylch yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifo

13 Hon oedd blwyddyn gyntaf y terfyn amser statudol diwygiedig ar gyfer paratoi a chyhoeddi’r datganiad ariannol erbyn 31 Gorffennaf 2019. Mae’r Awdurdod wedi bodloni’r terfyn amser cyflwyno, sef 31 Mai, ac y mae hefyd wedi paratoi datganiadau drafft a phapurau gweithio ategol o ansawdd sylweddol uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, ni chawsom unrhyw anawsterau sylweddol wrth gynnal yr archwiliad. Byddwn yn gweithio gyda’r Awdurdod yn ystod y flwyddyn nesaf i ddatblygu’r Canlyniadau Archwilio ymhellach er mwyn sicrhau bod yr holl bapurau gwaith perthnasol ar gael ar ddechrau’r archwiliad.

## Mae'n adeg briodol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ffurf a chynnwys y datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifo a gymhwyswyd wrth eu paratoi

14 Er bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu Llywodraeth Leol yn gyffredinol, gellid gwella ffurf a chynnwys y datganiadau ymhellach drwy gynnal adolygiad i'w cymharu â rhestr wirio datgelu'r Cod. Ar yr un pryd, gallai'r Awdurdod achub ar y cyfle i gael gwared â datgeliadau nad ydynt yn berthnasol.

15 Yn yr un modd, dylai'r Awdurdod gynnal adolygiad o'i bolisïau cyfrifyddu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben a'u bod yn adlewyrchu'n gynhwysfawr y polisïau amrywiol y mae'n eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Mae rhai problemau o hyd â chofrestr asedau'r Awdurdod y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys

16 Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion o'r blaen mewn cysylltiad â'r gofrestr asedau ac mae rhai ohonynt yn dal heb gael sylw. Er ein bod yn deall bod yr awdurdod yn cydnabod yr angen am ddatrysiad meddalwedd cofrestr asedau, mae'n annhebygol y bydd system yn cael ei chaffael a'i rhoi ar waith am o leiaf ddwy flynedd. Mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn cymryd camau dros dro i gryfhau ei gofrestr o asedau ar Excel, yn enwedig mewn cysylltiad ag asedau sydd wedi eu hailbrisio ac er mwyn sicrhau ei uniondeb cyffredinol.

## Mae un mater, sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol y mae angen inni ei adrodd i chi - gellid cryfhau'r broses ymhellach o gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i ddatgelu trafodion partïon cysylltiedig

17 Mae nodyn 31 o'r datganiadau ariannol yn nodi datgeliadau trafodion partïon cysylltiedig. Mae aelodau'r Awdurdod yn gwneud datganiad blynyddol am y partïon cysylltiedig hynny y mae ganddynt hwy, neu aelodau agos o'u teulu, fuddiannau ynddynt. Er ein bod yn fodlon bod y nodyn yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd yn adlewyrchu'r datgeliadau hyn, byddem yn nodi:

- na chwblhaodd un aelod ei ffurflen o gwbl ac nad oedd aelodau eraill wedi gwneud hynny yn brydlon, ac mewn gwirionedd, roedd angen eu hatgoffa fwy nag unwaith;
- bod anghysondebau o ran nifer y datganiadau a wnaed o'r flwyddyn flaenorol a allai fod wedi deillio'n ddilys o newidiadau mewn amgylchiadau, ond a allai hefyd fod yn arwydd o fethiant neu ddiffyg dealltwriaeth; ac
- roedd anghysondebau o ran y ffaith nad oedd y datganiadau yn cyd-fynd â gwybodaeth arall a oedd ar gael bob amser, gan gynnwys yr wybodaeth ar wefan yr Awdurdod.

18 Er ein bod ni'n fodlon bod y datgeliadau wedi eu nodi yn eu hanfod, dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau i sicrhau bod yr wybodaeth a ddefnyddir i baratoi'r nodyn datgelu yn gadarn.

### Trafodwyd a gohebwyd â'r rheolwyr am un mater o bwys y mae angen i ni ei adrodd i chi.

19 Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd Lys yr Apêl yn erbyn y Llywodraeth, gan nodi bod y newidiadau a wnaed i gynlluniau pensiwn yn gwahaniaethu yn erbyn grŵp o swyddogion cyhoeddus ar sail oedran. Roedd y newidiadau yn cwmpasu newid o sail cyflog terfynol i sail cyfartaledd gyrfa. Ar 27 Mehefin 2019, gwrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth i apelio yn erbyn y penderfyniad. Cyfeirir at y gyfres hon o ddigwyddiadau fel dyfarniad McCloud.

20 Mae'r gost o roi iawndal i'r gweithwyr yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn sylweddol. Rydym wedi dod i'r casgliad bod dyfarniad McCloud yn arwain at gost gwasanaeth yn y gorffennol a rhwymedigaeth yng nghwmpas cyfrifyddu ar gyfer pensiynau mewn awdurdodau lleol y dylid eu priodoli fel rhwymedigaeth ychwanegol pan fo'n bosibl gwneud amcangyfrif rhesymol.

21 Mae'r Awdurdod Tân yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar gyfer staff yr awdurdod, a gaiff ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint, a Mercers yw actiwari'r cynllun. Mae cronfa Bensiwn Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn benodol ar gyfer swyddogion tân, a chaiff ei goruchwylio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

22 Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth a Mercers wedi cynnal adolygiad o effaith dyfarniad McCloud ar Gronfa Bensiwn Awdurdod Tân Gogledd Cymru a CPLlL yn y drefn honno ac wedi cyfrifo rhwymedigaeth ychwanegol o £12.9 miliwn. Mae'r rhwymedigaeth ychwanegol hon wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol ac mae'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn i £332 miliwn.

### Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

23 Nid oes unrhyw faterion eraill i'ch hysbysu amdanynt. Yn benodol:

- ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes; ac
- nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19

24 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ar gyfer 2018-19 yn Atodiad 4. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os na fydd unrhyw gamau gweithredu wedi cael eu cymryd, byddwn yn

parhau i fonitro cynnydd ac yn cyflwyno adroddiad arno i chi yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

25 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

26 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Awdurdod sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ffordd Salesbury,

Parc Busnes Llanelwy,

Llanelwy,

Sir Ddinbych,

LL17 0JJ

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

29 Gorffennaf 2019

### Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2018-19

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt, ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r cod ymarfer ar gyfrifyddu awdurdodau lleol yn y DU; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny; a
- chynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig o ran rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Mae'r materion sy'n gysylltiedig â'r didyniadau treth mewn perthynas â lympiau swm pensiwn wedi cael eu trafod gyda'r rheolwyr ac rydym wedi derbyn cadarnhad bod taliadau yn cael eu gwneud pan mae'r symiau yn ddyledus i CThEM. Mae trefniadau nawr ar waith er mwyn cyfrifo yn llawn am unrhyw ddidyniadau ar yr un pryd a mae'r taliad yn cael ei wneud i'r unigolyn.

## Sylwadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 29 Gorffennaf 2019.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| K Finch FCPFA | Y Cynghorydd Peter Lewis |
| Trysorydd | Cadeirydd |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Dyddiad: 29 Gorffennaf 2019 | Dyddiad: 29 Gorffennaf 2019 |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

#### Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; a
- Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân;

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar 31 Mawrth 2019 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys y Safon Foesegol Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Awdurdod Tân ac Achub i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019; a
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Awdurdod Tân ac Achub a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif nac yn y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 10, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Awdurdod Tân ac Achub i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw hynny'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Anthony J Barrett | 24 Heol y Gadeirlan |
| Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 29 Gorffennaf 2018 | CF11 9LJ |

# Atodiad 3

## Crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi’r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i’ch cyfrifoldebau mewn perthynas â’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

Arddangosyn 3: crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Naratif | Adroddiad Naratif:<br>Fe wnaethpwyd nifer o newidiadau i adran y sefyllfa ariannol o’r Adroddiad Naratif er mwyn cryfhau’r wybodaeth a chynnig eglurdeb ble mae’n croes gyfeirio at nodiadau’r adroddiadau ariannol. | Er mwyn gwella’r wybodaeth ar gyfer y darllenydd |
| £319,000 | Mantolen:<br>Cynyddu Eiddo, Offer a Chyfarpar £319,000<br>Gostwng Asedau Anniriaethol £319,000 | Er mwyn dosbarthu ychwanegiadau meddalwedd TG yn gywir fel asedau anniriaethol |
| £851,000 | Mantolen:<br>Cynyddu Dyledwyr £851,000<br>Gostwng Credydwyr £851,000 | Er mwyn cydnabod incwm grant yn gywir, yn dderbyniol ar ran Awdurdodau Tân eraill Cymru, a’r rwymedigaeth arall i’w dalu drosodd iddynt hwy, fel ar 31 Mawrth 2019. |
| £12.883 miliwn | Cynyddu’r rwymedigaeth bensiwn yn y Fantolen a Nodyn 35 ‘Trafodion yn ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth’ er mwyn adlewyrchu amcangyfrif effaith y dyfarniad McCloud ar wahaniaethu ar sail oedran yn y gronfa bensiwn.<br>Mae addasiadau cyfatebol wedi cael eu gwneud yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, Datganiad Cynhwysfawr ar incwm a gwariant, Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd, Cronfeydd y Gronfa Bensiwn a nodiadau cefnogol. | Mae rhwymedigaeth pensiwn ychwanegol wedi codi yn dilyn dyfarniad McCloud, mae hi’n bosibl rhoi amcangyfrif rhesymol ar gyfer yr effaith. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | Dyw'r addasiad ddim yn cael effaith ar y cronfeydd wrth gefn gellid eu defnyddio. | |
| Naratif | Nodyn 2:<br>Datganiadau wedi eu hychwanegu yn ymwneud â ffynonellau pwysig eraill o amcangyfrif ac ansicrwydd. | Er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion datgan |
| Naratif | Nodyn 3:<br>Mae geiriad y nodyn hwn wedi'w ddiwygio er mwyn adlewyrchu sylwedd y trafodion materol yn ymwneud â rhagdaliadau pensiwn yn well. | Er mwyn hysbysu'r darllenydd yn well |
| Naratif | Nodyn 4:<br>Naratif wedi'w ychwanegu ar gyfer esbonio natur digwyddiad addasu ar ôl y cyfnod adrodd yn ymwneud â'r dyfarniad pensiwn McCloud | Er mwyn darparu datganiad pwrpasol o ddigwyddiad addasu ar ôl cyfnod adrodd |
| £142,000 | Nodyn 13:<br>Gostwng rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'w hamorteiddio | Er mwyn datgan y rhwymedigaethau yn gywir |
| Newid mewn dadansoddiad | Nodyn 16 a nodyn 18:<br>Diwygiwyd ddadansoddiad y dyledwyr a'r credydwyr er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Cod | Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion datgan |
| Newid mewn dadansoddiad | Nodyn 19:<br>Diwygiwyd ddadansoddiad y nodyn darpariaethau er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Cod | Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion datgan |
| Naratif | Nodyn 31:<br>Gwnaethpwyd ddatganiadau ychwanegol er mwyn dangos yr holl drafodion gyda phartïon cysylltiedig. Fe wnaeth manylion aelod nad oedd wedi cwblhau eu datganiad blynyddol hefyd gael eu hychwanegu. | Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion datgan |
| Dadansoddiad ychwanegol | Nodyn 32:<br>Mae gwybodaeth ychwanegol wedi cael ei ddarparu sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf ac ymrwymiadau cyfalaf. | Er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r darllenydd |
| Mae nifer o newidiadau mân a diweddariadau datgan wedi'w gwneud o ganlyniad i'n gwaith. | | |

# Atodiad 4

## Argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19

Amlinellwn ein hargymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

Arddangosyn 4: mater yn codi 1

| **Mater yn codi 1 – triniaeth gyfrifyddu anghywir ar gyfer didyniadau treth personol o gyfandaliadau a wnaed i'r ymddeoledigion, gan arwain at danddatgan taliadau i gronfa bensiwn y Diffoddwyr Tân.** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Roedd yr Awdurdod wedi codi tâl net yn anghywir (ar ôl taliadau treth personol) cyfandaliad a wnaed i unigolion i gronfa bensiwn y diffoddwr tân yn hytrach na'r gost lawn i'r Awdurdod. O ganlyniad, tanddatganwyd y costau cyfandaliad ac ni chronnwyd y symiau a oedd yn ddyledus i CThEM (a gasglwyd oddi wrth yr unigolion) yn y datganiadau ariannol. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod roi cyfrif priodol am wahanol elfennau'r cyfandaliadau net yn ei drafodion cyfrifo |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Cydymffurfio â'r egwyddorion cyfrifyddu priodol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Mae'r trefniadau cyfrifo wedi cael eu diwygio er mwyn sicrhau bod yr holl rwymedigaethau treth yn cael eu cydnabod yn gywir. |
| **Dyddiad gweithredu** | Yn syth |

Arddangosyn 5: mater yn codi 2

| **Mater yn codi 2 – byddai'r datganiadau ariannol yn elwa o gael adolygiad llawn gan eu cymharu â'r rhestr wirio datgelu'r Cod** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd nifer o feysydd nad oedd yn cydymffurfio â gofynion datgelu y Cod. Pe bai'r Awdurdod wedi cwblhau'r rhestr wirio ar gyfer datgelu y Cod, gallai'r rhain fod wedi eu nodi a'u datrys yn gynharach, cyn cyflwyno'r datganiadau ariannol ar gyfer eu harchwilio. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |

| Mater yn codi 2 – byddai'r datganiadau ariannol yn elwa o gael adolygiad llawn gan eu cymharu â'r rhestr wirio datgelu'r Cod | |
|---|---|
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn cwblhau rhestr wirio datgelu'r Cod ac ystyried hefyd a ellir cael gwared â datgeliadau amherthnasol er mwyn gwneud y datganiadau yn fwy hygyrch i'r darllenydd. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Bydd paratoadau datganiadau cyfrifon 2019/20 yn cynnwys cwblhau y rhestr wirio datgelu'r Cod. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2020 |

Arddangosyn 6: mater yn codi 3

| Mater yn codi 3 – byddai'r polisïau cyfrifyddu yn elwa o gael adolygiad i sicrhau eu bod yn adlewyrchu arferion cyfrifyddu'r Awdurdod yn briodol | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd bod nifer o bolisïau cyfrifyddu wedi dyddio ac nad oedd yr holl arferion cyfrifyddu wedi eu cynnwys yn y polisïau. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod adolygu ei bolisïau cyfrifyddu er mwyn sicrhau eu bod nhw'n berthnasol ac yn gynhwysfawr. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod yr arferion, y rheolau a'r egwyddorion penodol o ran pa gyfrifon a baratoir yn cael eu diffinio'n gywir a'u nodi yn y datganiadau ariannol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Tra ein bod yn cysidro bod y polisïau cyfrifyddu yn adlewyrchu'r arferion cyfrifo mae adolygiad blynyddol o'r polisïau cyfrifyddu wedi'w ychwanegu at y broses ddatgan blynyddol er mwyn sicrhau bod y polisïau yn gyflawn a chywir. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2020 |

Arddangosyn 7: mater yn codi 4

| Mater yn codi 4 – mae argymhellion blaenorol yn ymwneud â'r gofrestr asedau yn dal i fod heb eu bodloni ac mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys, yn enwedig mewn cysylltiad â'r asedau hynny sydd wedi eu hailbrisio. | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae'r gofrestr asedau ar Excel wedi ei strwythuro'n wael ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth ddigonol ar yr asedau hynny sydd wedi eu hailbrisio. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod ailgynllunio'r gofrestr asedau i sicrhau ei bod wedi ei strwythuro'n dda a'i bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i ategu'r cofnodion cyfrifyddu, yn enwedig mewn cysylltiad â phrisiadau. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd y gofrestr asedau yn ategu'r trafodion cyfrifyddu yn llawn yn y datganiadau ariannol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Bydd cofrestr asedau penodedig yn cael ei gysidro fel rhan o weithredu cyfriflyfr newydd. Fel mesur dros dro bydd y gofrestr asedau Excel cyfredol yn cael ei hadolygu a'i diwygio er mwyn sicrhau llwybr archwilio fwy eglur. |
| **Dyddiad gweithredu** | Rhagfyr 2019 |

Arddangosyn 8: mater yn codi 5

| Mater yn codi 5 – gellid cryfhau'r broses o gasglu datganiadau blynyddol gan aelodau | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Roedd rhai Aelodau yn araf i ymateb i gais yr Awdurdod am ddatganiadau blynyddol ac roedd y datganiadau, mewn mannau, yn anghyson â gwybodaeth berthnasol arall |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod atgyfnerthu ei brosesau mewn cysylltiad â chasglu datganiadau blynyddol ac mae angen i Aelodau ymateb yn brydlon. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod pob buddiant yn cael ei ddatgan a'i ddatgelu yn y datganiadau ariannol pan fo hynny'n briodol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Bydd y trefniadau mewnol yn cael eu hadolygu a'u diwygio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn 2019/20. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2020 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru